

TREFN AMGEN AR GYFER YR HWYROL WEDDI

Eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin

1. Y RHAGARWEINIAD

Duw, brysia i'n cynorthwyo.

Arglwydd, prysura i'n cymorth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,

ac i'r Ysbryd Glân;

fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,

ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.

Gweddi ddistaw/myfyrdod ar y diwrnod a fu.

Bydded fy ngweddi fel aroglarth o'th flaen,

ac estyniad fy nwylo fel offrwm hwyrol.

Arglwydd, trugarha.

Arglwydd, trugarha.

Yr Arglwydd yw fy mugail,

ni bydd eisiau arnaf.

Crist, trugarha.

Crist, trugarha.

Dysg i mi, Arglwydd, ffordd dy ddeddfau,

ac fe'i cadwaf hi i'r diwedd.

Arglwydd, trugarha.

Arglwydd, trugarha.

2. GWEINIDOGAETH Y GAIR

Salm(au)

Bydd pob salm a benodwyd am y dydd yn diweddu gyda

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab :
ac i'r- Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, •
y mae yn awr ac y bydd yn wastad :
yn oes oesoedd. A-men.

Y darlleniad o'r Beibl

Cyn y darlleniad
Darlleniad o ...

Ar ôl y darlleniad

Dyma ddiwedd y darlleniad.

Distawrwydd

Cantigl o'r Efengyl: Magnificat anima mea Dominum

Yn y tywyllwch fe gyfyd Crist, eich goleuni,
ac fe ffrydia eich iachâd fel y wawr.

¹Y mae fy enaid yn maw/rygu. yr / Arglwydd :
a gorfoleddodd fy / ysbryd • yn / Nuw fy • Ngwa/redwr,

²Am / iddo • ys/tyried :
di/stadledd / ei law/forwyn.

³Oherwydd wele / o hyn / allan :
fe'm gelwir yn wynfydedig / gan yr / holl • gened/laethau,

⁴Oherwydd gwnaeth yr hwn sydd nerthol bethau / mawr i / mi :
a sanctaidd / yw ei / enw / ef;

⁵Y mae ei drugaredd o genhedlaeth / i gen/hedlaeth :

i'r rhai sydd / yn ei / ofni / ef.

⁶Gwnaeth ry/muster • â'i / fraich :
gwasgaraodd / y rhai / balch eu / calon;

⁷Tynnodd dywysogion oddi ar / eu gor/seddau :
a dyr/chafodd / y rhai / distadl;

⁸Llwythodd y ne/wynog • â / rhoddion :
ac anfonodd y cyfoe/thogion / ymaith • yn / waglaw.

⁹Cynorthwyodd ef / Israel • ei / was :
gan / ddwyn i'w / gof • ei dru/garedd –

¹⁰Fel y llefarodd / wrth ein • hyn/afiaid :
ei drugaredd wrth Abraham a'i / had – / yn dra/gywydd.

Gogoniant i'r Tad ac i'r Mab :
ac i'r– Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, •
y mae yn awr ac y bydd yn wastad :
yn oes oesoedd. A–men.

Yn y tywyllwch fe gyfyd Crist, eich goleuni,
ac fe ffrydia eich iachâd fel y wawr.

3 Y GWEDDÏAU

Yn yr Hwyrrol Weddi, offrymir gweddïau am dangnefedd a thros unigolion yn eu hanghenion, a gellir rhoi diolch am y dydd.

Arglwydd, yn dy drugaredd,
gwrando ein gweddi.

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn eofn:
Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd ...

Dywedir Colect y Dydd

Yr ail golect, am dangnefedd.

Dragwyddol Dduw, ffynhonnell pob dyhead sanctaidd,
pob cyngor da a phob gweithred gyfiawn,
dyro i'th wasanaethyddion y tangnefedd hwnnw na all y byd ei roddi,
fel y bo inni o'n gwirfodd ufuddhau i'th orchmyinion,
ac, wedi ein rhyddhau rhag ofn ein gelynon,
dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y trydydd colect, am ras.

Goleua ein tywyllwch, gweddiwn arnat, O Arglwydd,
ac yn dy fawr drugaredd
amddiffyn ni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon;
trwy gariad dy unig Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. **Amen.**

Neu

Greawdwr y bydysawd, gwylia drosom
a chadw ni yng ngoleuni dy bresenoldeb.
Bydded ein moliant mewn cynghanedd gyson
â moliant y cread cyfan,
a dwg ni, ynghyd â phawb yr ydym yn gweddiö drostynt,
i'r llawenydd tragwyddol yr wyt yn ei addo inni yn dy gariad;
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr. **Amen.**

4 Y DIWEDDGLO

**Gras ein Harglwydd Iesu Grist,
a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân
fyddo gyda ni oll byth bythoedd. Amen.**

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
A hefyd gyda thi.

Bendithiwn yr Arglwydd.
I Dduw y bo'r diolch.

Hawlfraint Gwasg yr Eglwys yng Nghymru yw *Gweddi Ddyddiol*
2009 (yn cynnwys Trefn Gwasanaethau Ychwanegol y rhoddwyd iddynt y
teitl Boreol a Hwyrol Weddi 2009) y cynhwyswyd deunydd ohono yn ygwasanaeth hwn.